Llythyr agored i Gymunedau Saltney a Brychdyn

**Cyngor Sir y Fflint - Ymgysylltiad Cynnar ar Ddarpariaeth Addysgol yn yr Ardal**

Rydym yn ysgrifennu atoch fel cynrychiolwyr etholedig lleol Cyngor Sir y Fflint yn ardaloedd Saltney a Brychdyn.

Rydym eisiau dangos ein cefnogaeth i'r cyfle hwn i bawb yn ein cymunedau lleol i ymuno â sgwrs gyda'r Cyngor ynglŷn â sut orau i siapio darpariaeth addysgol ar draws y sector cynradd ac uwchradd yn yr ardal a sicrhau ei ddyfodol.

Rydym i gyd eisiau rhoi'r cyfle gorau i ddysgwyr gyflawni eu potensial trwy ddarparu addysgu o'r safon uchaf mewn amgylchedd ysgol 'o'r radd flaenaf' ond mae heriau sydd angen eu deall ac mae angen edrych ar atebion posib.

Mae'r ddogfen a'r holiadur Ymgysylltiad Cynnar, a ddatblygwyd ar y cyd gan swyddogion y Cyngor a'r penaethiaid lleol, yn gosod y cynnig addysgol cyfredol yn ardal Saltney a Brychdyn ac yn amlygu rhai o'r materion sydd angen eu trafod yn agored ac onest.

Bydd casglu barn bob aelod o'r gymuned leol gan gynnwys rhieni presennol a darpar rieni, plant a phobl ifanc, yn helpu'r Cyngor i ddatblygu cynllun cynaliadwy ar gyfer addysg yn yr ardal a chynorthwyo'r Cyngor gydag unrhyw gais am arian yn y dyfodol gan gynllun 'Cymunedau Dysgu Cynaliadwy' Llywodraeth Cymru.

Nid yw'r gweithgaredd hwn yn ymgynghoriad ffurfiol ar newid sefydliadol ysgolion ond yn gyfle i gasglu barn y gymuned leol ar beth sy'n bwysig iddyn nhw wrth ystyried beth maent ei eisiau gan eu hysgolion lleol a sut mae hynny'n dylanwadu ar eu dewisiadau ynglŷn â pha ysgol i'w dewis ar gyfer eu plant.

Rydym wedi cyfarfod gydag Arweinydd Cyngor Sir y Fflint, y Cyng. Ian Roberts, a Phrif Swyddog Addysg ac Ieuenctid, Mrs Claire Homard, i drafod y gweithgaredd 'ymgysylltiad cynnar' hwn a gallwn eich sicrhau nad oes unrhyw opsiwn penodol wedi ei ddewis yn barod.  Rydym i gyd yn teimlo'n gyffrous ynglŷn â'r posibilrwydd o fuddsoddiad sylweddol yn ein hardal.

Gobeithiwn y byddwch yn cymryd yr amser i ddarllen y ddogfen a llenwi'r holiadur ar-lein.

Yn ddiffuant

| | |
|---|---|
| **Y Cyng. Richard Lloyd** | **Saltney Ferry** |
| **Y Cyng. Jason Shallcross** | **Saltney Ferry** |
| **Y Cyng. Ryan McKeown** | **De Brychdyn** |
| **Y Cyng. Billy Mullin** | **Gogledd Ddwyrain Brychdyn** |